BETH ALLWCH CHI EI WNEUD?

CREFYDD A'R GYMUNED YN DATHLU ADDYSG GREFYDDOL

Rydym yn tueddu i gyfyngu crefydd, cred ac addysg grefyddol i lefydd arbennig ond os ydym am ddathlu AG y tu hwnt i ffiniau'r ystafell ddosbarth neu'r lle addoliad mae'n rhaid i ni edrych ymhellach i mewn i'r gymuned. Yma fe gewch rai syniadau a allai fod o ddefnydd i chi gynllunio digwyddiadau ar gyfer gŵyl genedlaethol AG – Dathlu AG.

Estyn allan

Un ffordd syml i ddathlu'r hyn y mae'r ysgol yn ei wneud yn y gymuned yw rhoi gwaith disgyblion mewn llefydd lle na fyddai'n cael ei weld fel arfer. Dyma rai syniadau:

- Gweithio gyda llyfrgelloedd ac amgueddfeydd lleol - mae gan bob llyfrgell ac amgueddfa ofod, mae oriel mewn ambell un - beth am ofyn am gael defnyddio'r gofod i arddangos gwaith y plant? Gallech drafod y posibiliadau fyddai'n dod yn eu sgîl. Efallai bod ganddynt gasgliad o lyfrau neu greiriau a allai sefyll ochr yn ochr â gwaith y disgyblion. Gallech hyd yn oed fod yn fwy clyfar a gweithio gyda'r llyfrgell neu'r amgueddfa i weld beth sydd ganddynt, cynllunio gwaith i'r disgyblion o gwmpas hyn, ac yna arddangos ar y cyd.
- Canolfannau siopa. Mae canolfannau siopa lleol yn cynnig posibiliadau cyfoethog i estyn allan am nifer o resymau:
  - Os oes yna ofod arddangos gofynnwch am gael ei ddefnyddio dros gyfnod y dathliad ac os oes modd, cael cyfnodau pryd y byddai'r disgyblion yno i siarad am eu gwaith
  - Gweithio gyda siopau a banciau i roi rhywbeth i fyny. Felly, mewn banc gallech gael arddangosfa fechan am faterion moesegol mae'ch disgyblion wedi bod yn eu trafod fel buddsoddi neu log/usuriaeth. Mewn siop gallech gael gwaith y disgyblion ar fasnach deg neu agweddau crefydd arbennig at brynu a gwerthu – megis agweddau'r Iddewon at hysbysebu.
  - Os yw siopau/unedau wedi cau, mae modd weithiau cael caniatâd y perchnogion i ddefnyddio'r ffenestri i hybu dibenion addysgol. Drwy wneud hyn mae'r siop yn edrych yn ddeniadol o'r tu allan ac mae'r ysgol yn elwa wrth i bobl weld ei gweithgareddau wrth gerdded heibio.

Mae gan y rhan fwyaf o ganolfannau siopa reolwr felly siaradwch â nhw i weld pa gyfleoedd sydd ar gael i ddathlu gwaith yr ysgol mewn AG.

- Mae Neuaddau Tref/Dinas/Sir yn llefydd da i arddangos gwaith. Yn aml mae ganddynt arddangosiadau o waith neu gelf a wnaed yn y gymuned leol ac mae hwn yn lle ardderchog i roi proffil uchel i'r ysgol a dathlu ei Haddysg Grefyddol. Fel arfer mae rhywun yng ngofal yr arddangosiadau felly holwch pwy ydyn nhw a gweithiwch gyda nhw. Gallai'r disgyblion wneud rhywbeth fel darlun demograffig o'r ardal leol gan ganolbwyntio ar grefydd a chred (tebyg i ddarlun yr ardal leol ar wefan y Cyfrifiad Cenedlaethol fel yr un i Awdurdod Unedol Bournemouth, gweler: http://www.statistics.gov.uk/census2001/profiles/00hn.asp) Neu gallwch ddarganfod pa broblemau sydd gan bobl o wahanol gymunedau ffydd a chred (fel grŵp Dyneiddwyr lleol) yn yr ardal honno a sicrhau eu bod yn cael eu rhannu gyda chynulleidfa ehangach. Mae'n dda i AG, yn dda i'r disgyblion, yn dda i gymunedau ac yn ardderchog i lywodraeth leol.

- Gorsafoedd bws a thrên. Weithiau mae gan y rhain ystafelloedd aros dan oruchwyliaeth lle y gellir gosod gwaith yn ddiogel. Siaradwch â'r rheolwr i weld oes cyfle yno.
- Clybiau chwaraeon - mae nifer o glybiau chwaraeon proffesiynol yn rhan o'r rhwydwaith Playing for Success (Pfs). Maent yn darparu addysg y tu allan i'r ysgol mewn ardaloedd difreintiedig ac ar gyfer pobl ifanc 'anodd eu cyrraedd'. Os oes clwb proffesiynol yn eich ardal chi neu glwb chwaraeon parod nad yw'n rhan o PfS gallech ofyn iddynt gymryd rhan mewn digwyddiad neu noddi digwyddiad. Clywyd fwy nag unwaith mai ail ddewis gyrfa Wayne Rooney oedd dysgu AG felly mae'n bosibl bod yna sawl egin addysgwr crefyddol yn y maes. Er bod PfS wedi dechrau gyda chlybiau pêl-droed proffesiynol mae bellach yn cynnwys amrywiaeth o chwaraeon. Ewch i http://www.playingforsuccessonline.org.uk/ am fwy o fanylion. Mae arian PfS i fod i ddod i ben ym mis Mawrth felly byddai'n werth ceisio cysylltu â nhw cyn gynted ag y bo modd os oes un yn eich ardal.

Ym mhob un o'r sefyllfaoedd hyn y cwestiwn allweddol yw: beth sy'n mynd i fod o fudd i'r rheiny sy'n cymryd rhan? Un fantais amlwg yw os yw'r cyhoeddusrwydd yn dda, bydd pobl eisiau gweld y gwaith a bydd hynny'n cynyddu 'cwsmeriaid' sy'n bwysig i lyfrgelloedd ac amgueddfeydd yn ogystal â busnesau. Mae nifer o fusnesau eisiau cael gwell cysylltiadau â'r gymuned ac un ffordd o wneud hyn yw cefnogi gwaith ysgolion. Gorau oll os yw'r prosiect wedi'i gysylltu â chymunedau ffydd lleol gan y bydd hynny'n creu mwy o ddiddordeb lleol ac yn cael ei weld fel rhywbeth perthnasol i ardal y busnes, y llyfrgell neu'r amgueddfa.

Gan weithio gyda CYSAG neu'r awdurdod lleol, gallai fod modd, drwy rywbeth fel y Siambr Fasnach, noddi gwobr am waith a wnaed yn AG, yn enwedig pan fo pynciau eraill ynghlwm hefyd. Gweithiodd un ysgol yng Nghanolbarth Lloegr gyda chanolfan siopa dan do i osod gwaith celf yn mynd i fyny i'r llawr cyntaf ar y thema "Stairway to Heaven". Gwnaed y gwaith gyda'r Adran Gelf a disgyblion Bl 10 a Bl 12 yn cymryd rhan. Y wobr oedd gwerth £100 o ddeunyddiau celf i'r myfyriwr. Wedi cyfnod o amser symudwyd y gwaith i'r ysgol lle cafodd ei arddangos ar y grisiau oedd yn arwain at yr adran AG.



Estyn i mewn

Un o broblemau mawr AG yw nad yw disgyblion yn aml yn ymwybodol o'r hyn sydd o'u hamgylch a phwysigrwydd cymdeithasol grwpiau crefyddol. Erbyn hyn mae gan nifer o drefi fugeiliaid y stryd, mae gan bron bob tref a dinas ganolfannau galw heibio a cheginau cawl sy'n cael eu rhedeg a'u noddi gan gymunedau ffydd. Beth am wahodd rhai o'r bobl hyn i egluro beth maen nhw'n ei wneud, pam a beth/pwy yw eu hysbrydoliaeth? Gallai hyn wedyn arwain at waith yn mynd yn ôl allan i'r gymuned - p'un ai ar ffurf eglwysi, canolfannau cymuned neu lefydd cyhoeddus eraill.

Yn aml mae gan amgueddfeydd, orielau celf a llyfrgelloedd gasgliadau sydd ag arwyddocâd crefyddol iddynt. (Ceir gwybodaeth a chyfleoedd i AG yn y V&A a'r Llyfrgell Brydeinig yn adran 'Beth allwch chi ei wneud?' *gwefan Dathlu AG* www.celebratingre.org.) Beth am ofyn iddynt ddod i mewn i'r ysgol i rannu'r rhain gyda grŵp blwyddyn neu ddosbarth? Gallai fod yn ddiddorol clywed rhywun o lyfrgell yn siarad am y stoc sydd ganddynt, sut mae'r stoc wedi newid o ganlyniad i alw a beth mae hyn yn dweud wrthym am ymchwil crefyddol pobl. Yn yr un modd gallai rhywun o siop lyfrau leol drafod pam fod yr adran 'enaid-meddwl-corff' wedi cynyddu ond yr adran grefyddol wedi lleihau dros amser ac edrych ar arferion prynu'r boblogaeth leol. Gallent hyd yn oed egluro pam fod 'meddwl-enaid-corff' yn cael ei ystyried yn wahanol i grefydd, neu pam fod llyfrau sy'n wrth-grefyddol yn cael eu rhoi gyda llyfrau crefyddol er na fyddech chi'n gosod llyfr gwrth-ymarfer yn yr adran chwaraeon. Gallai hyn arwain at waith diddorol y gallai'r disgyblion ei wneud yn eu hamser rhydd drwy fynd allan a gweld drostynt eu hunain.

Os oes gennych glwb chwaraeon proffesiynol yn eich ardal gwahoddwch aelodau o'r tîm i ddod i siarad am bwysigrwydd ffydd iddyn nhw – gallai sawl gwaith mae chwaraewyr yn gwneud arwydd y groes yn ystod gêm neu'n codi eu dwylo i'r nefoedd fod yn astudiaeth ddiddorol yn sgil pencampwriaeth Cwpan y Byd.

Mae gan lawer o lefydd gaplaniaid, nid ysbytai'n unig. Gwahoddwch gaplan lleol i siarad am eu gwaith mewn canolfannau siopa, safleoedd diwydiannol neu mewn cysylltiad â thrafnidiaeth.

Grwpiau lleol

Ar gyfer y mis Dathlu AG efallai y gallech annog grwpiau lleol i gymryd rhan mewn dathlu lle crefydd yn ein diwylliant. Dyma rai syniadau:

- Grwpiau corawl – beth am eu gwahodd i ganu detholiad o rai o'r oratorïau mawr? Gellid gwahodd cymunedau ffydd lleol neu fudiadau diwylliannol i ganu caneuon traddodiadol mewn digwyddiad AG a drefnwyd gan yr ysgol
- Grwpiau drama – beth am awgrymu darn o ddrama sy'n archwilio thema grefyddol? Gallai hyn fod yn ailwampio drama firagl ar gyfer yr oes fodern.
- Grwpiau dawns – trafod stori drwy ddawns. Gallai hyn fod yn gyfle i ailadrodd stori gyfarwydd, fel y Mab Afradlon, neu stori newydd i lawer, Genedigaeth y Khalsa.

Ym mhob achos byddai'n bwysig dod o hyd i leoliad sy'n agored ac yn berthnasol i'r cyhoedd. Mae eglwysi plwyf yn aml yn llefydd gwych ac yn croesawu grwpiau newydd. Gallai hyn fod yn gydweithrediad go iawn rhwng cymunedau ffydd lleol, yr ysgol a'r gymuned ehangach.

Yn yr un modd gallai'r mannau cyhoeddus y soniwyd amdanynt uchod – y ganolfan siopa, neuadd y dref/ddinas/sir, llyfrgelloedd, amgueddfeydd a chlybiau chwaraeon hefyd fod yn llefydd i gynnal y digwyddiadau hyn. Gallai oratorio stryd fod yn ffordd i ehangu'r gelfyddyd hon yn y dyfodol a gallech chi roi cychwyn ar hyn.

Ym mhob un o'r sefyllfaoedd hyn gellid gofyn i'r disgyblion weithio gyda grwpiau i ddatblygu syniadau os byddai'n hynny'n briodol.

Casgliad

Os ydym wir am ddathlu pwysigrwydd addysg grefyddol, mae angen i ni ei symud y tu hwnt i'r ysgol a'r ystafell ddosbarth ac i'r gymuned. Yn groes i'r gred gyffredin mae gan y gymuned y tu hwnt i'r ysgol ddiddordeb mewn crefydd a chred ac yn yr hyn y mae ysgolion yn ei wneud. Drwy adeiladu perthynas gyda grwpiau cymunedol a chael AG 'allan yna' rydym yn gwneud cymwynas ag AG, â chymunedau crefyddol ac â'r gymuned gyfan. Os ydych angen ambarél i roi'r gwaith hwn oddi tano mae'n cymryd ei le o fewn y cynlluniau a ddylai fod gan ysgol i gyflawni ei dyletswyddau mewn perthynas â chydlyniad cymdeithasol. Os mai dim ond o fewn ffiniau cymunedau ffydd yr ydym yn dathlu AG ni fyddwn yn ehangu dealltwriaeth y cyhoedd o'r hyn rydym yn ceisio'i wneud.